# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 11 Mawrth 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Philip Roberts
Catherine Hughes
Wyn Davies
Gareth Roberts
Dafydd Ll Williams
Tesni Wyn Jones
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – y Cynghorydd Einir Lewis

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 11 Chwefror 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Tesni Jones.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Doedd dim ymateb i ohebiaeth.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Chwefror 2021 i 3 Mawrth 2021 yn gywir yn y swm o £6046.54.

Derbyniwyd taliad gan Lightsource ynglŷn â’r Fferm Solar yn y swm o £4169.96.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200613 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200614 |
| Archwilio Cymru 2019/2020 | £337.65 | Siec rhif 200615 |

Penderfynwyd talu anfoneb mis diwethaf gan Archwilio Cymru.

**5. Materion Cynllunio**
Cafwyd un cais cynllunio:
Rhif Cais: C21/0126/33/YA
Lleoliad: Tir / Land Garn Boduan, Boduan, Pwllheli, LL53 8PZ
Bwriad: Creu trac at ddibenion coedwigaeth.
DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Datgan Diddordeb**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillator**
Erbyn y cyfarfod heno 'roedd yr aelodau i gyd wedi penderfynnu ar leoliadau i osod y peiriannau yn Boduan a Cheidio. Cafwyd sgwrs am y lleoliadau a penderfynwyd y bydd defribrillator yn cael ei osod yng Nghapel Ceidio ac un arall ar du allan i Cwr Coed ym Moduan. Nid oedd y Cynghorydd Wyn Davies yn dymuno rhoi barn ar leoliad Boduan, gofynnodd i gael ymatal rhag pleidleisio.

**Rhagolwg Elw a Cholled**
Rhoddwyd air o ddiolch i Dafydde Ll Williams am baratoi y Rhagolwg Elw a Cholled am y cyfnod 2020/21.

**Cofrestru tir y Cyngor Cymuned**
Datganodd y Cadeirydd bod y ddogfen ar gyfer y Land Registry wedi ei chwblhau ganddo ef a'r clarc.

**Pont Bodfal**
Derbyniwyd cwyn bod y rheolaeth traffig yn araf difrifol yn newid lliw gan awgrymu y byddau golau awtomatig yn hwyluso pethau. Eglurwyd gan y Cadeirydd nad yw hyn yn bosibl oherwydd bod y rheolaeth traffig yn gorfod cymeryd beiciau i ystyriaeth ynghyd â cheir.

**Lôn Ceidio ger Dinas Bran**
Cafwyd cwyn bod dŵr yn aros ar y lôn ger Dinas Bran. Datganodd y Cynghorydd Sirol, Anwen Davies, y byddai yn cysylltu gyda'r adran briffyrdd ynglŷ â hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Ebrill 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.